



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2010 Rhif 1890 (Cy.184)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**IECHYD ANIFEILIAID**

Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2010

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau Milheintiau a Sgilgynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2008 (O.S. 2008/2716) (Cy. 245). Maent yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru godi ffioedd am gymryd samplau swyddogol, neu am oruchwylion broses o'u cymryd, ac am gynnal profion sy'n ofynnol o dan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 584/2008 (OJ Rhif L 162, 21.6.2008, t. 3).

Mae asesiad effaith rheoleiddiol o'r effaith y bydd yr offeryn hwn yn ei chael ar gostau busnes a'r sector gwirfoddol wedi ei baratoi a gellir cael copiâu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2010 No. 1890 (W.184)**

**ANIMALS, WALES**

**ANIMAL HEALTH**

The Zoonoses and Animal By-Products (Fees) (Wales) (Amendment) Regulations 2010

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations, which apply in relation to Wales, amend the Zoonoses and Animal By-Products (Fees) (Wales) Regulations 2008 (S.I. 2008/2716) (W. 245). They make provision for the Welsh Ministers to charge fees for taking or supervising the taking of official samples and conducting testing required under Commission Regulation (EC) No 584/2008 (OJ No L 162, 21.6.2008, p. 3).

A regulatory impact assessment of the effect that this instrument will have on the costs of business and the voluntary sector has been produced and is available from the Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

**2010 Rhif 1890 (Cy.184)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**IECHYD ANIFEILIAID**

**Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2010**

*Gwnaed* *20 Gorffennaf 2010*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru* *23 Gorffennaf 2010*

*Yn dod i rym* *13 Awst 2010*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Cyllid 1973<sup>(1)</sup> ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy gan adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972<sup>(2)</sup> gyda chydysniad y Trysorlys, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i'r cyfeiriad at yr offeryn UE yn y Rheoliadau hyn gael ei ddehongli fel cyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

**Enwi, cymhwysyo a chychwyn**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2010.

(2) Maent yn gymwys o ran Cymru.

(3) Deuant i rym ar 13 Awst 2010.

**2010 No. 1890 (W.184)**

**ANIMALS, WALES**

**ANIMAL HEALTH**

**The Zoonoses and Animal By-Products (Fees) (Wales) (Amendment) Regulations 2010**

*Made* *20 July 2010*

*Laid before the National Assembly for Wales* *23 July 2010*

*Coming into force* *13 August 2010*

The Welsh Ministers, in exercise of powers conferred by section 56(1) and (2) of the Finance Act 1973<sup>(1)</sup> and now vested in them by section 59(5) of the Government of Wales Act 2006, and paragraph 1A of Schedule 2 to the European Communities Act 1972<sup>(2)</sup> with the consent of the Treasury, make the following Regulations.

These Regulations make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the European Communities Act 1972 and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for the reference to the EU instrument in these Regulations to be construed as a reference to that instrument as amended from time to time.

**Title, application and commencement**

1.-(1) The title of these Regulations is the Zoonoses and Animal By-Products (Fees) (Wales) (Amendment) Regulations 2010.

(2) They apply in relation to Wales.

(3) They come into force on 13 August 2010.

(1) 1973 p. 51.

(2) 1972 p. 68; mewnosodwyd paragraff 1A gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51).

(1) 1973 c. 51.

(2) 1972 c. 68; paragraph 1A was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51).

## Diwygio

2.-(1) Diwygir Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2008(1) yn unol â pharagraff (2) o'r rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2 (Dehongli) yn y diffiniad o "samplau rheoli swyddogol"—

- (i) hepgorer "neu" ar ddiwedd paragraff (b);
- (ii) hepgorer yr atalnod llawn ar ddiwedd paragraff (c) a rhodder "; neu" yn ei le;
- (iii) ar ôl paragraff (c) mewnosoder—  
"(ch) pwynt 1(b)(iii) o'r Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 584/2008 sy'n gweithredu Rheoliad 2160/2003 o ran targed Cymunedol ar gyfer gostwng nifer yr achosion o seroteipiau salmonela penodol mewn tyrcwn(2), fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.".

## Amendment

2.-(1) The Zoonoses and Animal By-Products (Fees) (Wales) Regulations 2008(1) are amended in accordance with the paragraph (2) of this regulation.

(2) In regulation 2 (Interpretation) within the definition of "official control samples"—

- (i) omit "or" at the end of paragraph (b);
- (ii) omit the full stop of the end of paragraph (c) and substitute ";" or";
- (iii) after paragraph (c) insert—  
"(d) point 1(b)(iii) of the Annex to Commission Regulation (EC) No 584/2008 implementing Regulation 2160/2003 as regards a Community target for the reduction of the prevalence of certain salmonella serotypes in turkeys(2), as amended from time to time.".

*Elin Jones*

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

Minister for Rural Affairs, one of the Welsh Ministers

20 Gorffennaf 2010

20 July 2010

---

© Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

---

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

---

(1) O.S. 2008/2716 (Cy.245).

(2) OJ Rhif L 162, 21.6.2008, t. 3.

(1) S.I. 2008/2716 (W.245).

(2) OJ No L 162, 21.6.2008, p. 3.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2010 Rhif 1890 (Cy.184)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**IECHYD ANIFEILIAID**

Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2010

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2010 No. 1890 (W.184)**

**ANIMALS, WALES**

**ANIMAL HEALTH**

The Zoonoses and Animal By-Products (Fees) (Wales) (Amendment) Regulations 2010

£4.00

W725

ON

ISBN 978-0-348-10250-5



9 780348 102505